# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**
Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mai 2017
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Bethan Davies**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6372
SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi:

(09.30)

**PTN1 - Llythyr oddi wrth Gomisiwn y Cynulliad i'r Cadeirydd - tanwariant**

**Penderfyniad y Bwrdd Taliadau - 28 Mawrth 2017**

(Tudalennau 1 - 5)

## 3 Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru): Cyfnod 2 - Trafod y gwelliannau

(09.30) (Tudalennau 6 - 34)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, bydd y Pwyllgor yn gwaredu gwelliannau i'r Bil yn y drefn a ganlyn:

Adrannau 2 i 33; Atodlen 1; Adrannau 34-40; Atodlen 2; Adrannau 41 i 89; Atodlen 3; Adrannau 90 i 95; Adran 1; Teitl Hir.

Dogfennau ategol:
Papur 1 - Rhestr o welliannau wedi'u didoli
Papur 2 - Grwpio Gwelliannau
Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), fel y'i cyflwynwyd (PDF, 298KB)
Memorandwm Esboniadol (PDF, 935)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Yn bresennol:
Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Emma Cordingley – Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
Sarah Tully – Rheolwr Prosiect Polisi Trethi Datganoledig, Llywodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar 17 Mai 2017

Eitem 2.1

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

28 Mawrth 2017

Annwyl Simon

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy llythyr ar 4 Tachwedd ynghylch Adroddiad eich Pwyllgor yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-2018. Fel y gofynnwyd yn Argymhelliad 3, dyma roi'r wybodaeth ichi ynghylch y tanwariant a ragwelir mewn perthynas â'r arian a gafwyd i gyllido Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, gan ddangos sut y caiff y tanwariant hwn ei ddefnyddio gan Gomisiwn y Cynulliad (mae'r manylion yn yr atodiad ynghlwm).

Fel yr esbonnir yn yr atodiad, mae pob tanwariant yn cael ei nodi yn ganolog ac yn cael ei gyfuno ar gyfer y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch y blaenoriaethau o ran buddsoddi. Yn ddiweddar, bûm mewn cyfarfod y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau er mwyn arsylwi'r broses o wneud penderfyniadau ar waith; yn bendant, mae'n broses drylwyr, â thrafodaeth ddigon cadarn yn ogystal â digon o herio.

Mae'n debyg ei bod yn werth ailadrodd y byddwn bob tro'n ystyried yr opsiwn o ddychwelyd cyfanswm y tanwariant o gyllid y Comisiwn os nad oeddem yn ystyried bod gennym ddigon o gyfleoedd buddsoddi ar gael i'r Comisiwn er mwyn defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn effeithlon ac yn effeithiol. Oherwydd y lefelau uchel o alw a phwysau nas gwelwyd mo'u tebyg ar gyllid y Comisiwn o'r blaen, nid dyna fu'r achos yn ystod blwyddyn ariannol 2016-17.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SulafaThomas@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6227

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Sulafa.Thomas@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6227

Os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, rhowch wybod i mi fel yr arfer.

Yn gywir

Suzy Davies AC
**Comisiynydd y Cynulliad / Assembly Commissioner**

cc Comisiynwyr y Cynulliad, Claire Clancy, Nia Morgan

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

Atodiad

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-2018**

**Ymateb Comisiwn y Cynulliad i Argymhelliad 3:** *Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fuan cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan fanylu ar y tanwariant a ddisgwylir o ran yr arian a ryddhawyd i gyllido penderfyniad y Bwrdd Taliadau a chyfiawnhau sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant hwn.*

Er nad oes un maes tanwariant y bwriedir gwario arno'n uniongyrchol, rhoddir blaenoriaeth i wariant sy'n ymwneud ag Aelodau'r Cynulliad. Yn ystod 2016-17, er enghraifft, bu i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a'i huwch staff, gymeradwyo defnyddio'r tanwariant i fuddsoddi mewn gwaith i greu ystafelloedd pwyllgora newydd, gwella diogelwch Aelodau yn eu swyddfa etholaeth a'u cartref, ac, yn fwyaf diweddar, mewnosod system i warchod cyflenwad pŵer y Senedd. Ceir manylion llawn yn y papur hwn.

**Penderfyniad y Bwrdd Taliadau**

Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Yn ôl deddfwriaeth, mae'n ofynnol ar Gomisiwn y Cynulliad i sicrhau bod digon o gyllid ar gael i dalu am y Penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd. Gosodir cyllid yn flynyddol ar sail 100 y cant o'r cyllid y mae galw amdano gan y Penderfyniad. Gan mai cyllid yn ôl y galw ydyw, sydd angen ei ariannu, mae gosod y cyllid ar sail 100 y cant yn cael gwared ar unrhyw risg y gallai'r hyn y gelwir amdano gan y Penderfyniad effeithio'n wael ar feysydd eraill o gyllid y Comisiwn. Arian y Comisiwn yw'r arian a neilltuir i Benderfyniad y Bwrdd Taliadau, ac adnodd i'w ddefnyddio gan y Comisiwn yw unrhyw danwariant.

**Rheoli'r Gyllideb**

Caiff pob tanwariant ei nodi yn ganolog a'i gyfuno er mwyn i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau wneud penderfyniadau am y blaenoriaethau o ran buddsoddi. Mae hyn yn hanfodol, gan mai dyma'r modd yr ydym yn cyllido gwaith buddsoddi angenrheidiol, gan weithio gyda'r cyllid sydd ar gael. Os na fyddem yn gweithio yn y modd hwn, sef rhagweld pa danwariant fydd ar gael, byddai angen swm cyllid ar

wahân at ddibenion buddsoddi, gan alw am ragor o arian i Gymru a chynyddu'r tebygolrwydd o gael cyllid heb ei ddefnyddio yng nghyfanswm cyllideb y Comisiwn.

Yn yr hydref, byddwn yn dechrau ar y gwaith o asesu cyflwr ein cyllideb ac yn ystyried ein cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn, a bydd yr asesiad hwn yn dwysáu wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Os, ar unrhyw bryd yn y flwyddyn, nad oes gennym gynlluniau cyllido sy'n addas, yn briodol ac yn cynnig gwerth am arian, byddwn yn ceisio creu cyllideb atodol er mwyn i unrhyw arian dros ben gael ei roi yng Nghronfa Gyfunol Cymru.

Ein hamcan yw sicrhau bod y Comisiwn yn cyflawni gwasanaeth o safon sy'n rhoi'r gwerth gorau bosibl i'r pwrs cyhoeddus. Gwneir hyn drwy gynllunio cyllideb arbenigol, drylwyr a thryloyw sy'n destun gwaith craffu gan eich Pwyllgor chi, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn yn ogystal â'r Comisiwn ei hun. Rydym wedi gwneud cynlluniau manwl sy'n golygu bod gennym syniad ynghylch anghenion gwariant yn y tymor hir (e.e. cynllun ar gyfer ailwampio dros gyfnod o 10 mlynedd). Gan na allwn drosglwyddo arian o un flwyddyn i'r llall, mae'r drefn hon - sef nodi gwaith y gellir ei flaenoriaethu - yn golygu na fydd angen dychwelyd arian dros ben a gofyn am ragor o arian mewn blynyddoedd i ddod. Y dewis arall fyddai gohirio gwariant, sy'n ddull a fyddai'n debygol o olygu cynnwys cyllidebau wrth gefn sylweddol.

Atgoffir staff yn gyson nad yw'n dderbyniol gwario ar eitemau diangen neu eitemau nad ydynt yn helpu cyflawni nod strategol, a dylai pob gwariant gynnig gwerth am arian. Mae deall esiampl y Bwrdd Adnoddau a Buddsoddi a'r Comisiwn o'r defnydd y dylid ei wneud o arian yng nghyd-destun llywodraethiant corfforaethol yn sicrhau y defnyddir arian i gyflawni nodau strategol y Comisiwn yn unig.

**Tanwariant tybiedig a buddsoddiad 2016-17**

Yn ystod y flwyddyn, caiff yr holl gyllideb ei fonitro ac adolygir rhagolygon bob pythefnos. Y tanwariant tybiedig ar gyfer 2016-17, yn weddill o'r swm a neilltuwyd i ddiwallu anghenion Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, yw £1.9 miliwn.

Er ei bod yn amlwg yn weddol fuan yn y flwyddyn ariannol y byddai tanwariant sylweddol yn weddill o'r swm a neilltuwyd i ddiwallu anghenion y Penderfyniad,

roedd hefyd yn glir bod angen sylweddol ar fyrder ar adnoddau'r Comisiwn yn 2016-17, yn deillio'n arbennig o'r hyn a ganlyn:

- cynnydd yn nifer y pwyllgorau a'r wythnos fusnes estynedig;
- heriau cynyddol i'r Gwasanaethau Diogelwch ar ystâd y Cynulliad;
- angen am ragor o drefniadau diogelwch yn bersonol ac yn swyddfeydd yr Aelodau yn sgil llofruddiaeth Jo Cox AS;
- blaenoriaethau'r Comisiwn a'r Llywydd newydd, gan gynnwys sefydlu senedd ieuenctid newydd a gwella ein gwasanaethau newyddion a gwybodaeth yn ddigidol;
- newidiadau cyfansoddiadol yn sgil Deddf Cymru 2017 a Brexit;
- pwysau ar yr ystâd yn y tymor byr a'r hirdymor o ran anghenion llety; a
- rhaglen FySenedd sydd â'r nod o greu senedd agored, ddigidol o'r radd flaenaf trwy wella'r modd yr ydym yn rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth, gwasanaethu Aelodau ac ymgysylltu gyda'n holl ddefnyddwyr drwy gyfrwng technoleg.

Bu i'r gwaith cynllunio capasiti a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016 adolygu'r galw cynyddol hwn yn fanwl, a chynllunio y bydd angen i adnoddau staffio ddiwallu'r galw. Yn ystod 2016-17, cymeradwyodd y Bwrdd Adnoddau a Buddsoddi ddefnydd y tanwariant ar gyfer y meysydd buddsoddi pennaf, i'w gweld yn y tabl isod.

| **Disgrifiad** | **Swm** |
|---|---|
| Gwaith ar y Llawr Gwaelod (Ystafelloedd Pwyllgora ychwanegol) | £1.185m |
| TGCh Ystafelloedd Pwyllgora | £0.202m |
| Prosiect y Swyddfa Gyflwyno | £0.048m |
| Prosiect Cofnod y Trafodion | £0.078m |
| Diogelwch gwell yn swyddfeydd etholaethol yr Aelodau | £0.040m |
| Gorffen Ailffitio'r Siambr | £0.261m |
| Gwydnwch pŵer gwell | £0.140m |
| **Cyfanswm** | **£1.954m** |

Bydd dogfen ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer 2016-17 hefyd yn cynnwys manylion llawn am ein gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Comisiwn y Cynulliad**
**Mawrth 2017**

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI
# MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)
## Landfill Disposals Tax (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

---

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.
Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling the amendment.

---

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
The Bill will be considered in the following order—

| | |
|---|---|
| Sections 2 - 33 | Adrannau 2 - 33 |
| Schedule 1 | Atodlen 1 |
| Sections 34 - 40 | Adrannau 34 - 40 |
| Schedule 2 | Atodlen 2 |
| Sections 41 - 89 | Adrannau 41 - 89 |
| Schedule 3 | Atodlen 3 |
| Sections 90 - 95 | Adrannau 90 - 95 |
| Section 1 | Adran 1 |
| Long title | Teitl hir |

---

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Nick Ramsay** **28**

Section 3, page 2, line 32, leave out 'is a disposal of the material as waste' and insert 'involves the discarding of the material'.

Adran 3, tudalen 2, llinell 34, hepgorer 'warediad o'r deunydd fel gwastraff' a mewnosoder 'cynnwys gwaredu deunydd'.

**Nick Ramsay** **29**

Page 3, line 18, leave out section 6 and insert—

**'[ ] Disposal of material**

(1) There is a disposal of material if the person responsible for the disposal discards the material.

(2) The following are not to be treated as inconsistent with the discarding of material—

(a) making a temporary use of the material, or a use of the material which is incidental to its disposal by way of landfill;

(b) deriving a benefit from the material or from anything emitted by it (for example, using gas produced by its decomposition in electricity generation).

(3) Regulations may for the purposes of this section provide for—

(a) the modification of the meaning of a disposal of material (including by amending this section or any other enactment relating to the tax);

(b) material to be treated as disposed of in circumstances where it would not otherwise be so treated;

(c) material to be treated as not disposed of in circumstances where it would otherwise be so treated.

(4) Regulations under subsection ([*the third subsection to be inserted by this amendment*]) may make provision subject to exceptions, conditions or other qualifications.'.

Tudalen 3, llinell 17, hepgorer adran 6 a mewnosoder—

**'[ ] Gwaredu deunydd**

(1) Gwaredir deunydd os yw'r person sy'n gyfrifol am y gwarediad yn bwrw'r deunydd o'r neilltu.

(2) Nid yw'r canlynol i'w trin fel pe baent yn anghyson â bwrw deunydd o'r neilltu—

(a) gwneud defnydd dros dro o'r deunydd, neu ddefnydd ohono sy'n atodol i'w waredu drwy dirlenwi;

(b) cael budd o'r deunydd neu o unrhyw beth a allyrrir ganddo (er enghraifft, defnyddio nwy a gynhyrchir wrth i'r deunydd bydru i gynhyrchu trydan).

(3) Caiff rheoliadau at ddibenion yr adran hon ddarparu ar gyfer—

(a) addasu ystyr gwaredu deunydd (gan gynnwys drwy ddiwygio'r adran hon neu unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â'r dreth);

(b) deunydd sydd i'w drin fel deunydd a waredir o dan amgylchiadau na fyddai'n cael ei drin felly fel arall;

(c) deunydd sydd i'w drin fel deunydd nas gwaredir o dan amgylchiadau a fyddai'n cael ei drin felly fel arall.

(4) Caiff rheoliadau o dan is-adran ([*y drydedd is-adran sydd i'w mewnosod gan y gwelliant hwn*]) wneud darpariaeth sy'n ddarostyngedig i eithriadau, amodau neu gyfyngiadau eraill.'.

**Mark Drakeford** **21**

Section 8, page 4, line 27, leave out 'pulverised fuel ash and furnace' and insert 'fly ash and'.

Adran 8, tudalen 4, llinell 29, hepgorer 'tanwydd maluriedig a lludw gwaelod ffwrnais' a mewnosoder 'sy'n codi a lludw gwaelod'.

**Mark Drakeford** **1**

Section 11, page 5, line 24, leave out 'dead domestic pets,' and insert 'the remains of dead pets (and any container or material in which the remains are contained)'.

Adran 11, tudalen 5, llinell 30, hepgorer 'anifeiliaid anwes meirw' a mewnosoder 'weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo)'.

**Mark Drakeford** **2**

Section 11, page 5, line 27, leave out 'dead domestic pets' and insert 'the remains of dead pets (and any container or material in which the remains are contained)'.

Adran 11, tudalen 5, llinell 33, hepgorer 'anifeiliaid anwes meirw' a mewnosoder 'weddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo)'.

**Nick Ramsay** **30**

Section 14, page 6, line 25, leave out 'the rate per tonne prescribed for the purposes of subsection (2) in regulations' and insert '£88.95'.

Adran 14, tudalen 6, llinell 28, hepgorer 'yw'r gyfradd y dunnell a ragnodir at ddibenion is-adran (2) mewn rheoliadau' a mewnosoder 'yw £88.95'.

**Nick Ramsay** **31**

Section 14, page 7, line 3, leave out 'the rate per tonne prescribed for the purposes of subsection (5) in regulations' and insert '£2.80'.

Adran 14, tudalen 7, llinell 3, hepgorer 'yw'r gyfradd y dunnell a ragnodir at ddibenion is-adran (5) mewn rheoliadau' a mewnosoder 'yw £2.80'.

**Nick Ramsay** **32**

Section 14, page 7, line 5, leave out 'Regulations under subsection (3) or (6)' and insert 'Subsections (3) and (6) may be amended by regulations. The regulations'.

Adran 14, tudalen 7, llinell 5, hepgorer 'Caiff rheoliadau o dan is-adran (3) neu (6)' a mewnosoder 'Caniateir i is-adrannau (3) a (6) gael eu diwygio drwy reoliadau. Caiff y rheoliadau'.

**Mark Drakeford** **22**

Section 15, page 7, line 13, leave out—

'—

(a) is listed as qualifying material in regulations, and

(b) meets each condition prescribed in the regulations (either in relation to qualifying material generally or in relation to qualifying material of that particular description).

*Requirement 2*'

and insert—

'is specified in the Table in Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 25*].

*Requirement 2*

Each condition in Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 25*] that applies in respect of the material is met (if any).

*Requirement 3*'.

Adran 15, tudalen 7, llinell 14, hepgorer—

'—

(a) wedi ei restru fel deunydd cymwys mewn rheoliadau, a

(b) yn bodloni pob amod a ragnodir yn y rheoliadau (naill ai mewn perthynas â deunydd cymwys yn gyffredinol neu mewn perthynas â deunydd cymwys o'r disgrifiad penodol hwnnw).

*Gofyniad 2*'

a mewnosoder—

'wedi ei bennu yn y Tabl yn Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 25*].

*Gofyniad 2*

Mae pob amod yn Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 25*] sy'n gymwys mewn perthynas â'r deunydd (os oes rhai) wedi ei fodloni.

*Gofyniad 3*'.

**Mark Drakeford** **23**

Section 15, page 7, line 24, leave out 'requirement 1 is' and insert 'requirements 1 and 2 are'.

Adran 15, tudalen 7, llinell 26, hepgorer 'wedi ei fodloni' a mewnosoder 'a 2 wedi eu bodloni'.

**Mark Drakeford** **24**

Section 15, page 7, after line 24, insert—

'( ) Regulations may amend Schedule [*Schedule to be inserted by amendment 25*].'.

Adran 15, tudalen 7, ar ôl llinell 26, mewnosoder—

'( ) Caiff rheoliadau ddiwygio Atodlen [*yr Atodlen sy'n cael ei mewnosod gan welliant 25*].'.

**Mark Drakeford** **25**

Page 50, after line 10, insert a new schedule—

‘SCHEDULE [ ]
*(introduced by section 15)*

QUALIFYING MATERIAL: SPECIFIED MATERIALS AND CONDITIONS

*General*

1 Table 1 sets out—

(a) in the second column, the materials that are specified for the purposes of requirement 1 in section 15;

(b) in the third column, the conditions (if any) that apply in respect of the materials for the purposes of requirement 2 in that section.

TABLE 1

| Group | Materials | Conditions |
|---|---|---|
| 1 | Rocks and soil | Naturally occurring |
| 2 | Ceramic or concrete material | |
| 3 | Minerals | Processed or prepared |
| 4 | Furnace slags | |
| 5 | Ash | |
| 6 | Low activity inorganic compounds | |
| 7 | Calcium sulphate | 1. The environmental permit relating to the site at which the material is disposed of authorises landfill disposals of non-hazardous waste only.<br>2. The material is disposed of in a cell that does not contain any biodegradable waste. |
| 8 | Calcium hydroxide and brine | Disposed of in a brine cavity |

*Interpretation*

2 Table 1 is to be interpreted in accordance with the following paragraphs of the Schedule.

3 The material in Group 1 comprises only—

(a) rock;

(b) clay;

(c) sand;

(d) gravel;

(e) sandstone;

(f) limestone;

(g) crushed stone;

(h) china clay;

(i) construction stone;

(j) stone from the demolition of buildings or structures;

(k) slate;

(l) sub-soil;

(m) silt;

(n) dredgings.

4 The material in Group 2 comprises only—

(a) glass, including fritted enamel;

(b) ceramics, including bricks, bricks and mortar, tiles, clay ware, pottery, china and refractories;

(c) concrete, including reinforced concrete blocks, breeze blocks and aircrete blocks.

5 The material in Group 2 does not include—

(a) glass fibre or glass-reinforced plastic;

(b) concrete plant washings.

6 The material in Group 3 comprises only—

(a) moulding sands, including used foundry sand;

(b) clays, including moulding clays and clay absorbents (including Fuller's earth and bentonite).

7 The material in Group 3 does not include—

(a) moulding sands containing organic binders;

(b) man-made mineral fibres made from—

(i) glass-reinforced plastic, or

(ii) asbestos.

8 The material in Group 4 comprises only—

(a) vitrified wastes and residues from the thermal processing of minerals where the wastes or residues are both fused and insoluble;

(b) slag from waste incineration.

9 The material in Group 5 comprises only fly ash and bottom ash from—

(a) wood or waste combustion, or

(b) coal or petroleum coke combustion (including fly ash and bottom ash produced when coal or petroleum coke is burnt together with biomass).

10 The material in Group 5 does not include fly ash from—

(a) sewage sludge, or

(b) municipal, clinical or hazardous waste incinerators.

11 The material in Group 6 comprises only—

(a) calcium based reaction wastes from titanium dioxide production;

(b) calcium carbonate;

(c) magnesium carbonate;

(d) magnesium oxide;

(e) magnesium hydroxide;

(f) iron oxide;

(g) ferric hydroxide;

(h) aluminium oxide;

(i) aluminium hydroxide;

(j) zirconium dioxide.

12 Group 7 includes calcium sulphate, gypsum and calcium sulphate based plasters but does not include plasterboard.

13 In the third column of Table 1, "non-hazardous waste" means waste that is not hazardous waste within the meaning of Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council of 18 November 2008 on waste.'.

Tudalen 50, ar ôl llinell 10, mewnosoder atodlen newydd—

'ATODLEN [ ]
*(a gyflwynir gan adran 15)*

DEUNYDD CYMWYS: DEUNYDDIAU PENODEDIG AC AMODAU

*Cyffredinol*

1 Mae Tabl 1 yn nodi—

(a) yn yr ail golofn, y deunyddiau sydd wedi eu pennu at ddibenion gofyniad 1 yn adran 15;

(b) yn y drydedd golofn, yr amodau (os oes rhai) sy'n gymwys mewn perthynas â'r deunyddiau at ddibenion gofyniad 2 yn yr adran honno.

TABL 1

| **Grŵp** | **Deunyddiau** | **Amodau** |
|---|---|---|
| 1 | Creigiau a phridd | Eu bod yn digwydd yn naturiol |
| 2 | Deunydd cerameg neu goncrit | |
| 3 | Mwynau | Eu bod wedi eu prosesu neu eu paratoi |
| 4 | Slag ffwrnais | |
| 5 | Lludw | |
| 6 | Cyfansoddion anorganig actifedd isel | |
| 7 | Calsiwm sylffad | 1. Bod y drwydded amgylcheddol sy'n ymwneud â'r safle y gwaredir y deunydd ynddo yn awdurdodi gwarediadau tirlenwi o wastraff nad yw'n beryglus yn unig.<br>2. Bod y deunydd yn cael ei waredu mewn cell nad yw'n cynnwys unrhyw wastraff bioddiraddadwy. |
| 8 | Calsiwm hydrocsid a heli | Ei fod wedi ei waredu mewn ceudod heli |

*Dehongli*

2 Mae Tabl 1 i'w ddehongli yn unol â'r paragraffau a ganlyn o'r Atodlen hon.

3 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 1—

(a) creigiau;

(b) clai;

(c) tywod;

(d) grafel;

(e) tywodfaen;

(f) calchfaen;

(g) malurion cerrig;

(h) caolin;

(i) cerrig adeiladu;

(j) cerrig o ddymchwel adeiladau neu strwythurau;

(k) llechi;

(l) isbridd;

(m) silt;

(n) sorod.

4 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 2—

(a) gwydr, gan gynnwys enamel wedi ei ffritio;

(b) cerameg, gan gynnwys brics, brics a morter, teils, nwyddau clai, crochenwaith, tseini a deunyddiau anhydrin;

(c) concrit, gan gynnwys blociau concrit cyfnerthedig, brisblociau a blociau aercrit.

5 Nid yw’r deunyddiau sydd yng Ngrŵp 2 yn cynnwys—

(a) ffeibr gwydr na phlastig a gyfnerthwyd â gwydr;

(b) golchion gweithfeydd concrit.

6 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 3—

(a) tywod mowldio, gan gynnwys tywod ffowndri defnyddiedig;

(b) clai, gan gynnwys clai mowldio ac amsugnyddion clai (gan gynnwys pridd pannwr a bentonit).

7 Nid yw’r deunyddiau sydd yng Ngrŵp 3 yn cynnwys—

(a) tywod mowldio sy’n cynnwys glynwyr organig;

(b) ffeibrau mwynol o wneuthuriad dyn a wnaed o—

(i) plastig a gyfnerthwyd â gwydr, neu

(ii) asbestos.

8 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 4—

(a) gwastraff a gweddillion gwydredig o brosesu mwynau yn thermol pan fo’r gwastraff neu’r gweddillion yn ymdoddedig ac yn anhydawdd;

(b) slag o losgi gwastraff.

9 Yr unig ddeunyddiau sydd yng Ngrŵp 5 yw lludw sy’n codi a lludw gwaelod—

(a) o hylosgi pren neu wastraff, neu

(b) o hylosgi glo neu olosg petrolewm (gan gynnwys lludw sy’n codi a lludw gwaelod a gynhyrchir pan gaiff glo neu olosg petrolewm ei hylosgi gyda biomas).

10 Nid yw’r deunyddiau sydd yng Ngrŵp 5 yn cynnwys lludw sy’n codi—

(a) o slwtsh carthion, neu

(b) o losgyddion gwastraff trefol, gwastraff clinigol neu wastraff peryglus.

11 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 6—

(a) gwastraff adwaith seiliedig ar galsiwm, a'r gwastraff hwnnw'n deillio o gynhyrchu titaniwm deuocsid;

(b) calsiwm carbonad;

(c) magnesiwm carbonad;

(d) magnesiwm ocsid;

(e) magnesiwm hydrocsid;

(f) haearn ocsid;

(g) fferrig hydrocsid;

(h) alwminiwm ocsid;

(i) alwminiwm hydrocsid;

(j) sirconiwm deuocsid.

12 Mae Grŵp 7 yn cynnwys calsiwm sylffad, gypswm a phlastrau sy'n seiliedig ar galsiwm sylffad ond nid yw'n cynnwys bwrdd plastr.

13 Yn nhrydedd golofn Tabl 1, ystyr "gwastraff nad yw'n beryglus" yw gwastraff nad yw'n wastraff peryglus o fewn ystyr Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff dyddiedig 18 Tachwedd 2008.'.

**Mark Drakeford** **14**

Section 19, page 10, line 20, leave out—

'by—

(a) determining the weight of the material in tonnes in accordance with section 20, and

(b) where approval has been given under section 21 to apply a discount in respect of water present in the material, applying the discount, in accordance with the approval, to the weight determined under paragraph (a).'

and insert—

'in the following way.

( ) The operator must determine the weight of the material in tonnes in accordance with section 20.

( ) If the operator has approval under section 21 to apply a discount in relation to the disposal, the operator may apply the discount (or a lesser discount) to the weight determined under subsection ([*the first subsection to be inserted by this amendment*]), subject to the conditions of the approval (if any).'.

Adran 19, tudalen 10, llinell 18, hepgorer—

‘drwy—

(a) pennu pwysau’r deunydd mewn tunelli yn unol ag adran 20, a

(b) pan fo cymeradwyaeth wedi ei rhoi o dan adran 21 i gymhwyso disgownt mewn cysylltiad â dŵr sydd yn y deunydd, gymhwyso’r disgownt, yn unol â’r gymeradwyaeth, i’r pwysau a bennir o dan baragraff (a).’

a mewnosoder—

‘yn y ffordd a ganlyn.

( ) Rhaid i’r gweithredwr bennu pwysau’r deunydd mewn tunelli yn unol ag adran 20.

( ) Os oes gan y gweithredwr gymeradwyaeth o dan adran 21 i gymhwyso disgownt mewn perthynas â’r gwarediad, caiff y gweithredwr gymhwyso’r disgownt (neu ddisgownt is) i’r pwysau a bennir o dan is-adran ([*yr is-adran gyntaf sy’n cael ei mewnosod gan y gwelliant hwn*]), yn ddarostyngedig i amodau’r gymeradwyaeth (os oes rhai).’.

**Mark Drakeford** **3**

Section 20, page 10, line 29, leave out—

‘before the disposal is made.

(2) The operator must do so by weighing the material on a weighbridge that meets the requirements in weights and measures legislation applicable to a weighbridge of that description.’

and insert—

‘by using a weighbridge.

(2) The operator must ensure, for the purposes of subsection (1)—

(a) that the material is weighed on the weighbridge before the disposal is made, and

(b) that the weighbridge meets each requirement in weights and measures legislation that applies to the weighbridge (if any).’.

Adran 20, tudalen 10, llinell 26, hepgorer—

‘cyn y gwneir y gwarediad.

(2) Rhaid i’r gweithredwr wneud hynny drwy bwyso’r deunydd ar bont bwyso sy’n bodloni gofynion deddfwriaeth pwysau a mesurau sy’n gymwys i bont bwyso o’r disgrifiad hwnnw.’

a mewnosoder—

‘gan ddefnyddio pont bwyso.

(2) Rhaid i’r gweithredwr sicrhau, at ddibenion is-adran (1)—

(a) bod y deunydd yn cael ei bwyso ar y bont bwyso cyn y gwneir y gwarediad, a

(b) bod y bont bwyso yn bodloni pob un o’r gofynion mewn deddfwriaeth pwysau a mesurau sy’n gymwys i’r bont bwyso (os oes rhai).’.

**Mark Drakeford** **4**

Section 20, page 11, line 15, leave out '(2)' and insert '(1)'.

Adran 20, tudalen 11, llinell 17, hepgorer '(2)' a mewnosoder '(1)'.

**Mark Drakeford** **15**

Section 21, page 12, line 9, leave out—

'to which a discount is applied under section 19(1)(b)'

and insert—

'in relation to which a discount is applied in respect of water present in material'.

Adran 21, tudalen 12, llinell 12, hepgorer—

'o dan adran 19(1)(b)'

a mewnosoder—

'mewn cysylltiad â dŵr sydd mewn deunydd'.

**Mark Drakeford** **16**

Section 22, page 12, line 25, leave out—

'approval has been given under section 21 to apply a discount in respect of water present in the material, applying the discount, in accordance with the approval, to the weight determined under paragraph (a)'

and insert—

'there is approval under section 21 to apply a discount in relation to the disposal, applying the discount to the weight determined under paragraph (a), subject to the conditions of the approval (if any)'.

Adran 22, tudalen 12, llinell 28, hepgorer—

'wedi ei rhoi o dan adran 21 i gymhwyso disgownt mewn cysylltiad â dŵr sydd yn y deunydd, drwy gymhwyso'r disgownt, yn unol â'r gymeradwyaeth, i'r pwysau a bennir o dan baragraff (a)'

a mewnosoder—

'o dan adran 21 i gymhwyso disgownt mewn perthynas â'r gwarediad, drwy gymhwyso'r disgownt i'r pwysau a bennir o dan baragraff (a), yn ddarostyngedig i amodau'r gymeradwyaeth (os oes rhai)'.

**Mark Drakeford** **17**

Section 23, page 13, line 7, leave out—

'applied a discount to the disposal under section 19(1)(b) otherwise than in accordance with an approval given under section 21, WRA may—'

and insert—

'approval under section 21 to apply a discount in relation to the disposal, but

(b) is in breach of a condition of the approval,

WRA may take the steps set out in subsection ([s*ubsection to be inserted by amendment 18*]).'.

Adran 23, tudalen 13, llinell 7, hepgorer—

'gweithredwr y safle lle y gwneir gwarediad trethadwy wedi cymhwyso disgownt i'r gwarediad o dan adran 19(1)(b) heb fod yn unol â chymeradwyaeth a roddir o dan adran 21, caiff ACC—'

a mewnosoder—

'gan weithredwr y safle lle y gwneir gwarediad trethadwy gymeradwyaeth o dan adran 21 i gymhwyso disgownt mewn perthynas â'r gwarediad, ond

(b) ei fod yn torri amod sydd ynghlwm â'r gymeradwyaeth,

caiff ACC gymryd y camau a nodir yn is-adran ([*yr is-adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 18*]).'.

**Mark Drakeford** **18**

Section 23, page 13, after line 8, insert—

'( ) WRA may—'.

Adran 23, tudalen 13, ar ôl llinell 9, mewnosoder—

'( ) Caiff ACC—'.

**Mark Drakeford** **11**

Section 26, page 14, line 10, leave out—

'and

(b) it was removed from that bed in the interests of navigation'.

Adran 26, tudalen 14, llinell 10, hepgorer—

'a

(b) os tynnwyd ef o'r gwely hwnnw er budd mordwyaeth'.

**Mike Hedges** **9**

Section 28, page 15, line 2, after 'of', insert 'final site'.

Adran 28, tudalen 15, llinell 2, ar ôl 'adfer', mewnosoder 'safle terfynol'.

**Mike Hedges** **10**

Section 28, page 15, line 4, after 'of', insert 'final'.

Adran 28, tudalen 15, llinell 3, ar ôl 'adfer', mewnosoder 'terfynol'.

**Mark Drakeford** **19**

Section 31, page 16, line 21, leave out—

'and

(b) it is made at an authorised landfill site (or at a part of such a site) in respect of which all of the conditions in subsection (2) are met.

(2) The conditions are that—

(a) the site (or the part in question) is or was a quarry,

(b) planning permission relating to the site is subject to a condition requiring that the quarry or former quarry must be wholly or partially refilled, and

(c) the environmental permit authorising disposals by way of landfill at the site (or at the part in question) authorises only disposals of qualifying material.

(3) Where quarrying operations at a site ended before 1 October 1999, disposals of material at the site are not relieved from tax under this section unless the requirement mentioned in subsection (2)(b) was imposed on or before that date.

(4) Where an environmental permit does not meet the condition in subsection (2)(c) but an application has been made to vary the permit to meet it, the permit is to be treated as meeting the condition for the period while the application is pending, or for two years beginning with the day on which the application was made, whichever is shorter.

(5) An application is pending if—

(a) it has not been determined or withdrawn,

(b) an appeal against the refusal or deemed withdrawal of the application has been brought and has not been finally determined or withdrawn, or

(c) no such appeal has been brought but the time for bringing one is still running.

(6) In this section, "quarry" includes a sand pit, clay pit or gravel pit, and any other land used for extracting minerals by surface working.'

and insert—

'(b) it is made at an authorised landfill site (or part of such a site) that was used for open-cast mining operations or quarrying operations,

(c) it is made in accordance with a condition of planning permission relating to the site which requires the site (or the part in question) to be wholly or partially refilled after those operations end, and

(d) no other taxable disposals have been made at the site (or at the part in question) since those operations ended, apart from disposals that were relieved from tax under section 27 or this section.

(2) If the operations mentioned in subsection (1)(b) ended before the coming into force of this section, the reference in subsection (1)(d) to other taxable disposals includes disposals that were taxable disposals for the purposes of Part 3 of the Finance Act 1996 (c. 8) (landfill tax).

(3) If all open-cast mining operations and quarrying operations at the site ended before 1 October 1999, disposals of material at the site are not relieved from tax under this section unless the requirement mentioned in subsection (1)(c) was imposed on or before that date.’.

Adran 31, tudalen 16, llinell 22, hepgorer—

‘a

(b) os caiff ei wneud ar safle tirlenwi awdurdodedig (neu ar ran o safle o’r fath) y bodlonir yr holl amodau yn is-adran (2) mewn cysylltiad ag ef.

(2) Yr amodau yw—

(a) bod y safle neu y bu’r safle (neu’r rhan dan sylw) yn chwarel,

(b) bod caniatâd cynllunio sy’n ymwneud â’r safle yn ddarostyngedig i amod sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r chwarel neu’r gyn-chwarel gael ei hail-lenwi yn llwyr neu’n rhannol, ac

(c) bod y drwydded amgylcheddol sy’n awdurdodi gwarediadau drwy dirlenwi ar y safle (neu ar y rhan o dan sylw) yn awdurdodi gwarediadau deunydd cymwys yn unig.

(3) Pan fo gweithrediadau chwarela ar safle wedi dod i ben cyn 1 Hydref 1999, nid yw gwarediadau deunydd ar y safle wedi eu rhyddhau rhag treth o dan yr adran hon oni chafodd y gofyniad a grybwyllir yn is-adran (2)(b) ei osod ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny.

(4) Pan na fo trwydded amgylcheddol yn bodloni’r amod yn is-adran (2)(c) ond bod cais wedi ei wneud i amrywio’r drwydded er mwyn ei fodloni, mae’r drwydded i’w thrin fel pe bai’n bodloni’r amod am y cyfnod tra bo’r cais yn yr arfaeth, neu am ddwy flynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y gwnaed y cais, pa un bynnag sydd fyrraf.

(5) Mae cais yn yr arfaeth—

(a) os nad yw wedi ei ddyfarnu na’i dynnu’n ôl,

(b) os gwnaed apêl yn erbyn gwrthod y cais neu dybied bod y cais wedi ei dynnu’n ôl ac nad yw’r apêl wedi ei dyfarnu’n derfynol na’i thynnu’n ôl, neu

(c) os na wnaed apêl o’r fath ond bod y cyfnod ar gyfer gwneud apêl yn parhau.

(6) Yn yr adran hon, mae "chwarel" yn cynnwys pwll tywod, pwll clai neu bwll graean, ac unrhyw dir arall a ddefnyddir i echdynnu mwynau drwy gloddio ar yr wyneb.'

a mewnosoder—

'(b) os caiff ei wneud ar safle tirlenwi awdurdodedig (neu ar ran o safle o'r fath) a ddefnyddiwyd ar gyfer gweithrediadau mwyngloddio brig neu weithrediadau chwarela,

(c) os caiff ei wneud yn unol ag amod caniatâd cynllunio sy'n ymwneud â'r safle sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r safle gael ei ail-lenwi (neu i'r rhan o dan sylw gael ei hail-lenwi) yn llwyr neu'n rhannol ar ôl i'r gweithrediadau hynny ddod i ben, a

(d) os na wnaed unrhyw warediadau trethadwy eraill ar y safle (neu ar y rhan o dan sylw) ers i'r gweithrediadau hynny ddod i ben, ar wahân i warediadau a oedd wedi eu rhyddhau rhag treth o dan adran 27 neu o dan yr adran hon.

(2) Os daeth y gwarediadau a grybwyllir yn is-adran (1)(b) i ben cyn i'r adran hon ddod i rym, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1)(d) at warediadau trethadwy eraill yn cynnwys gwarediadau a oedd yn warediadau trethadwy at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Cyllid 1996 (p. 8) (treth dirlenwi).

(3) Os daeth yr holl weithrediadau mwyngloddio brig a'r holl weithrediadau chwarela ar y safle i ben cyn 1 Hydref 1999, nid yw'r gwarediadau deunydd ar y safle wedi eu rhyddhau rhag treth o dan yr adran hon oni bai bod y gofyniad a grybwyllir yn is-adran (1)(c) wedi ei osod ar y dyddiad hwnnw neu cyn hynny.'.

**Nick Ramsay** **33**

Section 45, page 23, line 13, leave out 'the rate per tonne prescribed for the purposes of subsection (2) in regulations' and insert '£133.43'.

Adran 45, tudalen 23, llinell 14, hepgorer 'yw'r gyfradd y dunnell a ragnodir at ddibenion is-adran (2) mewn rheoliadau' a mewnosoder 'yw £133.43'.

**Nick Ramsay** **34**

Section 45, page 23, line 15, leave out 'Regulations under subsection (4)' and insert 'Subsection (4) may be amended by regulations. The regulations'.

Adran 45, tudalen 23, llinell 16, hepgorer 'Caiff rheoliadau o dan is-adran (4)' a mewnosoder 'Caniateir i is-adran (4) gael ei diwygio drwy reoliadau. Caiff y rheoliadau'.

**Eluned Morgan** **26**

Page 26, after line 29, insert a new section—

**'CHAPTER [ ]**

INVESTIGATIONS

**[ ] Investigation requirements**

(1) A county council or county borough council in Wales must investigate a disposal which has been made where all of the following apply—

(a) the disposal is a disposal of material;

(b) the disposal is made on any land within the relevant council's area;

(c) the disposal is made at a place which is not, and does not form part of, an authorised landfill site;

(d) the council considers that the disposal is or may be a taxable disposal.

(2) The duty in subsection (1) above only applies in circumstances where the relevant council is aware that such a disposal has been made.

(3) Where a duty under this section applies, and the relevant council investigates the disposal, the relevant council may disclose information to WRA in accordance with section 59.'.

Tudalen 26, ar ôl llinell 30, mewnosoder adran newydd—

**'PENNOD [ ]**

YMCHWILIO

**[ ] Gofynion ymchwilio**

(1) Rhaid i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ymchwilio i warediad sydd wedi ei wneud pan fo pob un o'r canlynol yn gymwys—

(a) mae'r gwarediad yn warediad deunydd;

(b) gwneir y gwarediad ar unrhyw dir o fewn ardal y cyngor perthnasol;

(c) gwneir y gwarediad yn rhywle nad yw'n safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath;

(d) mae'r cyngor yn ystyried bod y gwarediad yn warediad trethadwy, neu y gallai fod yn warediad trethadwy.

(2) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1) uchod ond yn gymwys mewn amgylchiadau pan fo'r cyngor perthnasol yn ymwybodol bod gwarediad o'r fath wedi ei wneud.

(3) Pan fo dyletswydd o dan yr adran hon yn gymwys, a phan fo'r cyngor perthnasol yn ymchwilio i'r gwarediad, caiff y cyngor perthnasol ddatgelu gwybodaeth i ACC yn unol ag adran 59.'.

**Eluned Morgan** **27**

Page 26, after line 29, insert a new section—

**'CHAPTER [ ]**

INVESTIGATIONS

**[ ] Contributions towards investigations**

(1) Where—

(a) a person listed in subsection (2) undertakes an investigation into a taxable disposal of material under this Part, and

(b) that investigation results in the payment of landfill disposals tax,

the Welsh Ministers must consider whether it is appropriate for a proportion of the tax generated in respect of that investigation to be paid to such a person to reflect costs incurred in investigating disposals within its area.

(2) The persons are—

(a) a county council or county borough council in Wales;

(b) the Natural Resources Body for Wales.

(3) Where the Welsh Ministers consider that it is appropriate to make a payment in accordance with subsection (1), they must—

(a) consider the appropriate amount to be paid, and

(b) arrange for such a payment to be made.'.

Tudalen 26, ar ôl llinell 30, mewnosoder adran newydd—

**'PENNOD [ ]**

YMCHWILIO

**[ ] Cyfraniadau at ymchwiliadau**

(1) Pan fo—

(a) person a restrir yn is-adran (2) yn cynnal ymchwiliad i warediad trethadwy deunydd o dan y Rhan hon, a

(b) yr ymchwiliad hwnnw yn arwain at dalu treth gwarediadau tirlenwi,

rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a yw'n briodol i gyfran o'r dreth a gynhyrchir mewn cysylltiad â'r ymchwiliad hwnnw gael ei thalu i berson o'r fath i adlewyrchu costau sy'n deillio o ymchwilio i warediadau o fewn ei ardal.

(2) Y personau yw—

(a) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(b) Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol gwneud taliad yn unol ag is-adran (1), rhaid iddynt—

(a) ystyried y swm priodol i'w dalu, a

(b) trefnu i daliad o'r fath gael ei wneud.'.

**Nick Ramsay** **35**

Page 26, after line 29, insert a new section—

*'Independent review*

**[ ] Independent review of this Part**

(1) The Welsh Ministers must make arrangements for an independent review of the effectiveness of this Part to be completed before the expiry of the period of 3 years beginning with the day on which this subsection comes into force.

(2) Following the completion of the review, the Welsh Ministers must publish a report of it.

(3) The arrangements mentioned in subsection (1) may include—

(a) payment of expenses incurred by a person in carrying out (or assisting in carrying out) the review;

(b) provision of assistance (including financial assistance) to such a person;

(c) directing WRA to assist in carrying out the review.'.

Tudalen 26, ar ôl llinell 30, mewnosoder adran newydd—

*'Adolygiad annibynnol*

**[ ] Adolygiad annibynnol o'r Rhan hon**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Rhan hon gael ei gwblhau cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y daw'r is-adran hon i rym.

(2) Ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad arno.

(3) Caiff y trefniadau a grybwyllir yn is-adran (1) gynnwys—

(a) talu treuliau y mae person yn mynd iddynt wrth gynnal yr adolygiad (neu wrth gynorthwyo i'w gynnal);

(b) darparu cymorth (gan gynnwys cymorth ariannol) i berson o'r fath;

(c) cyfarwyddo ACC i gynorthwyo a'r gwaith o gynnal yr adolygiad.'.

**Nick Ramsay** **36**

Section 59, page 32, line 33, after 'WRA', insert ', and the WRA may disclose information to a person listed in subsection (2),'.

Adran 59, tudalen 32, llinell 33, ar ôl 'ACC' yn y lle cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder ', a chaiff ACC ddatgelu gwybodaeth i berson a restrir yn is-adran (2),'.

**Mark Drakeford** **5**

Section 59, page 33, line 1, leave out subsection (3) and insert—

‘( ) A disclosure under this section does not breach—

(a) any obligation of confidence owed by the person making the disclosure, or

(b) any other restriction on the disclosure of information (however imposed).

( ) But nothing in this section authorises a disclosure which—

(a) contravenes the Data Protection Act 1998 (c. 29), or

(b) is prohibited by any of Parts 1 to 7 or Chapter 1 of Part 9 of the Investigatory Powers Act 2016 (c. 25).

( ) Until the repeal of Part 1 of the Regulation of Investigatory Powers Act 2000 (c. 23) by paragraphs 45 and 54 of Schedule 10 to the Investigatory Powers Act 2016 (c. 25) is fully in force, subsection ([*the second subsection to be inserted by this amendment*])(b) has effect as if it included a reference to that Part.’.

Adran 59, tudalen 33, llinell 1, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder—

‘( ) Nid yw datgeliad o dan yr adran hon yn torri—

(a) unrhyw rwymedigaeth gyfrinachedd sy’n ddyledus gan y person sy’n gwneud y datgeliad, neu

(b) unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei osod).

( ) Ond nid oes dim yn yr adran hon yn awdurdodi datgeliad—

(a) sy’n torri Deddf Diogelu Data 1998 (p. 29), neu

(b) a waherddir gan unrhyw un neu ragor o Rannau 1 i 7 neu Bennod 1 o Ran 9 o Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (p. 25).

( ) Hyd nes y bydd diddymiad Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (p. 23) gan baragraffau 45 a 54 o Atodlen 10 i Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016 (p. 25) mewn grym yn llwyr, mae is-adran ([*yr ail is-adran sy’n cael ei mewnosod gan yr gwelliant hwn*])(b) yn cael effaith fel pe bai’n cynnwys cyfeiriad at y Rhan honno.’.

**Mark Drakeford** **6**

Section 60, page 33, line 11, leave out ‘comply with a requirement imposed by’ and insert ‘determine the weight of the material in a taxable disposal in accordance with’.

Adran 60, tudalen 33, llinell 12, hepgorer ‘chydymffurfio â gofyniad a osodir gan’ a mewnosoder ‘phennu pwysau’r deunydd mewn gwarediad trethadwy yn unol ag’.

**Mark Drakeford** **20**

Page 33, line 15, leave out section 61 and insert—

‘[ ] **Penalty for applying water discount incorrectly**

Where an operator of an authorised landfill site, in calculating the taxable weight of the material in a taxable disposal—

(a) applies a discount without having approval under section 21 to do so, or

(b) applies a discount which is greater than the discount approved under section 21,

the operator is liable to a penalty not exceeding £500 in respect of each taxable disposal to which a discount is applied in either of those ways.’.

Tudalen 33, llinell 16, hepgorer adran 61 a mewnosoder—

‘[ ] **Cosb am gymhwyso’r disgownt dŵr yn anghywir**

Pan fo gweithredwr safle tirlenwi awdurdodedig, wrth gyfrifo pwysau trethadwy’r deunydd mewn gwarediad trethadwy—

(a) yn cymhwyso disgownt heb fod â chymeradwyaeth o dan adran 21 i wneud hynny, neu

(b) yn cymhwyso disgownt sy’n fwy na’r disgownt a gymeradwywyd o dan adran 21,

mae’r gweithredwr yn agored i gosb nad yw’n fwy na £500 mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy y cymhwysir disgownt iddo yn y naill neu’r llall o’r ffyrdd hynny.’.

**Mark Drakeford** **7**

Section 67, page 35, line 6, leave out ‘£5,000’ and insert ‘£3,000’.

Adran 67, tudalen 35, llinell 6, hepgorer ‘£5,000’ a mewnosoder ‘£3,000’.

**Mark Drakeford** **8**

Section 67, page 35, line 6, leave out—

‘but this is subject to subsections (2) and (3).

(2) A person is not liable to more than one penalty under this section in respect of the same act or omission.

(3) No penalty is incurred in respect of a failure to keep or preserve records if WRA is satisfied that any facts that it reasonably requires to be proved, and which would have been proved by the records, are proved by other documentary evidence provided to it.

(4) Regulations may amend or repeal subsection (2).’

and insert—

‘(2) But a person is not liable to a penalty under this section in respect of a failure to keep or preserve records if WRA is satisfied that any facts that it reasonably requires to be proved, and which would have been proved by the records, are proved by other documentary evidence provided to it.’.

Adran 67, tudalen 35, llinell 6, hepgorer—

‘ond mae hyn yn ddarostyngedig i isadrannau (2) a (3).

(2) Nid yw person yn agored i fwy nag un gosb o dan yr adran hon mewn cysylltiad â’r un weithred neu anwaith.

(3) Nid oes cosb mewn cysylltiad â methiant i gadw cofnodion neu eu storio’n ddiogel os yw ACC wedi ei fodloni bod unrhyw ffeithiau y mae’n rhesymol ofynnol ganddo iddynt gael eu profi, ac y byddai’r cofnodion wedi eu profi, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

(4) Caiff rheoliadau ddiwygio neu ddiddymu is-adran (2).’

a mewnosoder—

‘(2) Ond nid yw person yn agored i gosb o dan yr adran hon mewn cysylltiad â methiant i gadw cofnodion neu eu storio’n ddiogel os yw ACC wedi ei fodloni bod unrhyw ffeithiau y mae’n rhesymol ofynnol ganddo iddynt gael eu profi, ac y byddai’r cofnodion wedi eu profi, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.’.

**Eluned Morgan** **12A**

As an amendment to amendment 12, after line 8 insert—

( ) The Scheme must make provision for an equal distribution of funding between the three key areas of biodiversity, waste minimisation and other social or environmental community enhancements.

Fel gwelliant i welliant 12, ar ôl llinell 9 mewnosoder—

( ) Rhaid i’r Cynllun wneud darpariaeth ar gyfer dosbarthu cyllid yn gyfartal rhwng y tri maes allweddol sef bioamrywiaeth, lleihau gwastraff a gwelliannau cymdeithasol neu amgylcheddol eraill i’r gymuned.

**Mark Drakeford** **12**

Page 45, after line 23, insert a new section—

**‘[ ] Landfill Disposals Tax Communities Scheme**

(1) The Welsh Ministers must prepare and publish a Landfill Disposals Tax Communities Scheme on or before the date on which this Act comes fully into force.

(2) The Scheme must make provision for grants to be given by the Welsh Ministers to persons engaged in activities which the Welsh Ministers consider will promote or improve the social or environmental well-being of areas in Wales affected by—

(a) the making of landfill disposals, or

(b) activities preparatory to the making of landfill disposals.

(3) The Scheme may provide for the grants—

(a) to be allocated by reference to criteria specified in the Scheme;

(b) to be subject to conditions specified in the Scheme or by the Welsh Ministers.

(4) The Welsh Ministers—

(a) must review the Scheme—

(i) at least once in the period of 4 years beginning with the day on which it is first published, and

(ii) subsequently, at least once in each period of 4 years beginning with the day on which the previous review is concluded, and

(b) must consult such persons as they think appropriate when doing so.

(5) The Welsh Ministers may revise or revoke the Scheme following a review; but the Scheme may not be revoked within the period of 4 years beginning with the day on which it is first published.

(6) If the Scheme is revised, the Welsh Ministers must publish the revised Scheme.

(7) The Welsh Ministers must lay the Scheme, and any revised Scheme, before the National Assembly for Wales.'.

Tudalen 45, ar ôl llinell 23, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar y dyddiad y daw'r Ddeddf hon i rym yn llawn neu cyn hynny.

(2) Rhaid i'r Cynllun wneud darpariaeth ar gyfer rhoi grantiau gan Weinidogion Cymru i bersonau sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y byddant yn hyrwyddo neu'n gwella llesiant cymdeithasol neu amgylcheddol ardaloedd yng Nghymru a effeithir gan—

(a) gwneud gwarediadau tirlenwi, neu

(b) gweithgareddau sy'n baratoadol ar gyfer gwneud gwarediadau tirlenwi.

(3) Caiff y Cynllun ddarparu i'r grantiau—

(a) cael eu dyrannu drwy gyfeirio at feini prawf a bennir yn y Cynllun;

(b) bod yn ddarostyngedig i amodau a bennir yn y Cynllun neu gan Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) adolygu'r Cynllun—

(i) o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y'i cyhoeddir gyntaf, a

(ii) yn dilyn hynny, o leiaf unwaith yn ystod pob cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblheir yr adolygiad blaenorol, a

(b) ymgynghori ag unrhyw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy pan fyddant yn gwneud hynny.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio neu ddirymu'r Cynllun ar ôl cynnal adolygiad; ond ni chaniateir dirymu'r Cynllun o fewn y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y'i cyhoeddir gyntaf.

(6) Os caiff y Cynllun ei ddiwygio, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cynllun diwygiedig.

(7) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Cynllun, ac unrhyw Gynllun diwygiedig, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.'.

**Nick Ramsay** **37**

Page 45, after line 23, insert a new section—

**'[ ] Publication of tax rates**

The rates prescribed under section 14(3), 14(6) and section 45(4) must be published on the Welsh Government's website.'.

Tudalen 45, ar ôl llinell 23, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Cyhoeddi cyfraddau treth**

Rhaid i'r cyfraddau a ragnodir o dan adran 14(3), 14 (6) ac adran 45(4) gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.'.

**Nick Ramsay** **38**

Page 45, after line 23, insert a new section—

*'Sharing of investigation resources*

**[ ] Guidance**

The Welsh Ministers may issue guidance to the WRA as to the adoption of best practice in the sharing of investigation resources with the Natural Resources Body for Wales and with county councils and county borough councils in Wales.'.

Tudalen 45, ar ôl llinell 23, mewnosoder adran newydd—

*'Rhannu adnoddau ymchwilio*

**[ ] Canllawiau**

Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i ACC ynghylch mabwysiadu arfer gorau o ran rhannu adnoddau ymchwilio gyda Chorff Adnoddau Naturiol Cymru a chyda chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.'.

**Nick Ramsay** **39**

Page 45, after line 23, insert a new section—

*'Sharing of investigation resources*

**[ ]** **Guidance**

The Welsh Ministers may issue guidance regarding the adoption of best practice in the sharing of investigation resources between the WRA, the Natural Resources Body for Wales and county councils and county borough councils in Wales.'.

Tudalen 45, ar ôl llinell 23, mewnosoder adran newydd—

*'Rhannu adnoddau ymchwilio*

**[ ]** **Canllawiau**

Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ynghylch mabwysiadu arfer gorau o ran rhannu adnoddau ymchwilio rhwng ACC, Corff Adnoddau Naturiol Cymru a chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru.'.

**Nick Ramsay** **40**

Section 91, page 46, line 10, leave out 'is exercisable' and insert 'must be exercised'.

Adran 91, tudalen 46, llinell 9, hepgorer—

'Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn'

a mewnosoder—

'O ran pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—

(a) rhaid iddo gael ei arfer drwy offeryn statudol;

(b) mae'n'.

**Steffan Lewis** **44**

Section 91, page 46, leave out line 17.

Adran 91, tudalen 46, hepgorer llinell 17.

**Mark Drakeford** **13**

Section 91, page 46, line 18, leave out—

‘(c) regulations made under section 59(5) (persons who may disclose information to WRA),’.

Adran 91, tudalen 46, llinell 18, hepgorer—

‘(c) rheoliadau a wneir o dan adran 59(5) (personau a gaiff ddatgelu gwybodaeth i ACC),’.

**Steffan Lewis** **45**

Section 91, page 46, leave out lines 20 to 25.

Adran 91, tudalen 46, hepgorer llinellau 20 hyd at 25.

**Nick Ramsay** **41**

Section 92, page 46, line 31, leave out ‘the second or subsequent’.

Adran 92, tudalen 46, llinell 32, hepgorer ‘yr ail reoliadau neu reoliadau dilynol’ a mewnosoder ‘rheoliadau’.

**Steffan Lewis** **46**

Page 47, after line 22, insert a new section—

**‘[ ] Reducing disposals to landfill**

In exercising their powers under this Act, the Welsh Ministers must have due regard to the purpose of reducing disposals to landfill in Wales.’.

Tudalen 47, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd—

**‘[ ] Lleihau gwarediadau i safleoedd tirlenwi**

Wrth arfer eu pwerau o dan y Ddeddf hon, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i’r bwriad o leihau gwarediadau i safleoedd tirlenwi yng Nghymru.’.

**Nick Ramsay** **42**

Section 93, page 48, leave out line 12.

Adran 93, tudalen 48, hepgorer llinell 30.

**Nick Ramsay** **43**

Section 93, page 49, line 19, leave out ‘as waste’.

Adran 93, tudalen 49, llinell 29, hepgorer ‘fel gwastraff’.

# GRWPIO GWELLIANNAU
# GROUPINGS OF AMENDMENTS

## Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)
## Landfill Disposals Tax (Wales) Bill

### Cyfnod 2 ar 11 Mai 2017
### Stage 2 on 11 May 2017

Mae'r ddogfen hon yn nodi ym mha drefn y caiff y gwelliannau eu trafod ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn ymwneud â'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i bob grŵp. Nid yw'r rhestr hon yn disodli'r rhestr o welliannau wedi'u didoli, sy'n nodi'r gwelliannau yn y drefn y cânt eu gwaredu. Dylai'r rhestr hon gael ei darllen ar y cyd â'r rhestr o welliannau wedi'u didoli.

This document provides the order in which amendments will be debated and any relevant procedural information relevant to each group. This list does not replace the marshalled list, which sets out the amendments in the order in which they will be disposed of. This list should be read in conjunction with the marshalled list.

**1. Gwaredu deunydd fel gwastraff**

**Disposal of material as waste**

**28, 29, 42, 43**

**2. Deunydd cymwys**

**Qualifying material**

**21, 22, 23, 24, 25**

**3. Mynwentydd anifeiliaid anwes**

**Pet cemeteries**

**1, 2**

**4. Y dreth sydd i'w chodi**

**Tax chargeable**

**30, 31, 32, 33, 34, 37, 41**

**5. Pwysau trethadwy deunydd**

**Taxable weight of material**

**14, 3, 4, 15, 16, 17, 18, 6, 20**

**6. Rhyddhad rhag treth**

**Relief from tax**

**11, 9, 10, 19**

**7. Ymchwilio**

**Investigation**

**26, 27, 38, 39**

**8. Adolygiad annibynnol**

**Independent review**

**35**

**9. Datgelu gwybodaeth**

**Disclosure of information**

**36, 5, 13**

**10. Cosbau**

**Penalties**

**7, 8**

**11. Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi**

**Landfill Disposals Tax Communities Scheme**

**12, 12A**

**12. Rheoliadau: cyffredinol**

**Regulations: general**

**40, 44, 45**

**13. Cyfyngu ar warediadau drwy dirlenwi**

**Reducing disposals to landfill**

**46**